

Adroddiad Blynyddol Cynghorydd CBSP

Y Cynghorydd E Venables

Ward: Llangrallo Isaf

Plaid: Annibynnol

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy ngweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 30 Ebrill 2018. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. Barn y Cynghorydd yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Rôl a Chyfrifoldebau

Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli Llangrallo Isaf ar 8 Mai 2018. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau yn y cyngor eleni gan gynnwys cael fy mhenodi i sawl pwyllgor.

Eisteddais ar y pwyllgorau canlynol:

- Cyngor
- Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
- Pwyllgor Craffu Cymunedau
- Panel Apeliadau
- Cyd-bwyllgor Amlogfa Llangrallo
- Pwyllgor Cydraddoldebau
- Fforwm TGCh (Cadeirydd)

Cynrychiolais CBSP ar y sefydliadau allanol canlynol:

Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Llangrallo

- Is-bwyllgor Cwricwlwm
- Is-bwyllgor Staffio
- Is-bwyllgor Cwynion
- Is-bwyllgor Athrawon a Staff Cymorth
- Is-bwyllgor Rheoli Perfformiad Apeliadau'r Pennaeth
- Is-bwyllgor Disgyblu Disgyblion
- Is-bwyllgor Disgyblu/Diswyddo Staff

Corff Llywodraethu Ysgol Gyfun Pencoed

- Is-bwyllgor Staffio a Chwricwlwm
- Pwyllgor Cwynion
- Is-bwyllgor Adeiladu, Iechyd a Diogelwch, a Diogeledd
- Is-bwyllgor Marchnata a Chymuned
- Is-bwyllgor Diswyddo Staff
- Llunio Rhestr Fer a Phenodi Staff Addysgu a Chymorth, gan gynnwys athro

Saesneg a Gwyddoniaeth

- Adolygiadau Safonau - Saesneg a Gwyddoniaeth
- Penodi Pennaeth Cynorthwyol
- Penodi Pennaeth

Mynychais y mentrau dysgu a datblygu canlynol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf:

- Hyfforddiant Cod Ymddygiad
- Trosolwg o'r Awdurdod

- Hyfforddiant Apeliadau
- Hyfforddiant Rhianta Corfforaethol
- Hyfforddiant Craffu Cymunedau
- Sgiliau Cwestiynu Craffu
- Hyfforddiant Diogelu
- Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Ddementia
- Hyfforddiant Cronfa Gweithredu yn y Gymuned
- Craffu ar Adroddiadau Perfformiad
- Gweddarlledu
- Gweithdy ar Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol
- Cyllideb
- Cyfarfod Cynllun Datblygu Lleol
- Cyfarfod Strategaeth Ariannol Tymor Canolig

Briffio cyn y Cyngor

- Plismona'r Fwrdeistref Sirol
- Briffio Gwasanaeth Corfforaethol
- Llywio Dogfennau Cyfarfod Electronig yn Effeithiol
- Halo
- Trawsnewid Digidol
- Gweithredu Credyd Cynhwysol
- Cynllun Datblygu Lleol
- Cymoedd i'r Arfordir
- Consortiwm Canolbarth y De

Datblygiad ychwanegol

- Cynhadledd Llywodraethwyr Ysgolion
- Sesiwn sefydlu gyda CLILC

Ceir rhagor o wybodaeth am fy [rolau, cyfrifoldebau a gweithgareddau](#) drwy ddilyn y ddolen hon.

Gweithgarwch Etholaeth

Fel eich cynghorydd sir, mae fy amser yn cael ei rannu rhwng ymdrin ag ymholiadau gan etholwyr a dyletswyddau swyddogol yn y cyngor.

Gall ymholiadau gan etholwyr amrywio o geisiadau syml iawn e.e. torri'r glaswellt, i faterion eithaf cymhleth e.e. problemau cynllunio sy'n gallu para hyd at flwyddyn.

Yn arbennig, eleni nodais nifer o faterion ym mhentref Llangrallo. Yn bennaf materion yn ymwneud â'r ddarpariaeth gwastraff newydd a diffyg cynwysyddion, tipio anghyfreithlon, difrod i balmentydd, atgyweirio'r ramp i'r maes chwarae, tyllau yn y ffordd, torri glaswellt, apeliadau bathodyn glas, chwyn, mynediad i eiddo ar yr A473, dronau, problemau parcio ysgol, tocio coed, tocio perthi, aflonyddwch sŵn, gosod goleuadau stryd newydd, arwydd newydd ar lwybr troed, a phroblemau baw cŵn. Erbyn hyn ceir arwyddion "Dim HGV" ar ddau ben Lôn Tyn y Caeau a bin sbwriel gyferbyn â Fferm Brodingallt.

Yn Waterton achosodd y ddarpariaeth gwastraff newydd broblemau sylweddol y llynedd, sydd bellach wedi'u datrys ac roedd mater cynllunio penodol yn ymwneud ag apêl.

Yn Brocastle cafwyd llai o broblemau, yn benodol, y ddarpariaeth gwastraff newydd a sut y byddai'n gweithredu yn y system rhannu bin.

Rwyf wedi darparu gwybodaeth i etholwyr am bynciau amrywiol e.e. materion preifatrwydd, polisïau salwch, materion yn ymwneud â llyfrgelloedd a rhandiroedd.

Rwyf wedi ysgrifennu cylchlythyr bob mis ar gyfer y Coychurch Chronicle. Cafodd hwn ei ddsbarthu hefyd drwy restr bostio e-bost ac ar fy nghyfrif Facebook. Rwyf wedi cynnal cymorthfeydd misol yn Neuadd Goffa Williams, Llangrallo, gyda'r nos ac yn ystod amser cinio. Rwyf wedi e-bostio unrhyw wybodaeth frys at etholwyr a phostio ar Twitter a Facebook. Rwyf hefyd wedi postio cylchlythyr blynyddol o'm hadroddiad blynyddol i bob tŷ yn yr etholaeth. Drwy wneud hyn rwyf wedi cysylltu â'r holl etholwyr a sicrhau bod ganddynt fynediad i'r wybodaeth rwy'n ei lledaenu.

Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Ar hyn o bryd, mae'r Gronfa Gweithredu yn y Gymuned wedi'i gwario ar atgyweirio'r ffens pêl-droed yn y maes chwarae yn Llangrallo a chyllid ar gyfer taith i Gaffi Cymunedol Llangrallo.

Gweithgareddau/Materion Eraill

Gweithgareddau cymunedol

- Ffair y Gwanwyn
- Trefnais i'r Prif Weithredwr, Darren Mephram, siarad yng Nghaffi Cymunedol Llangrallo
- Ffair Nadolig yr Eglwys
- Gwasanaeth carolau Nadolig
- Cinio'r Grawys

Gweithgareddau Ysgol Llangrallo

- Gwerthu rhaglenni CRA ar gyfer carnifal yr ysgol
- Rygbi TAG
- Asesiad eco gyda Matthew Bunt
- Sgwrs am Foslemiaid
- Taith i Sain Ffagan
- Taith i'r theatr

Gweithgareddau Ysgol Pencoed

- Sioe gerdd Chicago
- Noson areithiau flynyddol

Gweithgareddau Cynghorydd Bwrdeistref

- Es i ddigwyddiad Gofalwyr Pen-y-bont ar Ogwr yng Nghartref Gofal Brocastle
- Es i ddigwyddiad Menywod mewn Llywodraeth Leol yn Neuadd y Ddinas

Caerdydd

- Gwasanaeth Dinesig y Maer
- Cyfarfod Annibynnol Rhanbarthol
- Cyfarfod Swyddfa Archwilio Cymru
- Cyfarfod datblygu Sunnyside

Y Cynghorydd E Venables:

Dyddiad: 14/06/2018

